

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 75

Key Language

The prefix "cam-"
Comparative forms

New Words

Rhoi help llaw	to give a helping hand
Disglaid	a cuppa (SW)
Bisgedyn	a biscuit
Camddeall	to misunderstand
Chwerthin ar fy mhen	to laugh at me
Gwyllt	wild
Gwyllt uffernol	terribly wild
Agoriad	key (NW)
Allwedd	key (SW)
Bishi	busy (SW)
Ar fai	at fault; to blame
Y ffasiwn... (+ soft mutation)	such a...
Y ffasiwn beth	such a thing
Siomi	to disappoint
Gormod	too much
hwyr neu'n hwyrach	eventually
pacio	to pack
cysga'n dawel!	sleep tight!
"Champion"	great; fantastic (NW)
blêr	messy; unkempt
nes	closer
Yffach!	Crikey!
Beth ddiawl...	what the hell...
Ffysian	to fuss
Gwaedu	to bleed
Hances boced	handkerchief
Igam-ogam	higgledy-piggledy; zig-zag; not straight

Agnes was astonished to hear that Jac had agreed to employ Arwyn as his full-time nurse. He told her that he wanted a third person to be in the house with him as it would be too awkward if it were just Brian and himself. Jac's ideal scenario of course is to move in with Agnes, but she's not so keen.

Agnes - Rwyd ti wedi gwahodd Arwyn i fyw yn dy dŷ di? Pam?

Jac - Achos dw i eisiau rhywun arall yna...Rhywun arall heblaw Brian...

Agnes - Jac...Edrycha...Dw i wedi bod yn meddwl ond...

Jac - Ond beth?

Agnes - Ond mae hi'n rhy gynnar i ti symud i mewn gyda fi...Sori...Ond bydd rhaid i ti fynd nôl i dy dŷ di yr wythnos nesaf...Tan ar ôl y Nadolig... o leiaf...Tan y flwyddyn newydd, dywed...O.K?

Main Grammatical Points

When Brian tries to placate Wendy on the phone and tells her that she's misunderstood him, he says:

Wendy, rwyd ti wedi camdeall

Camddeall means to misunderstand. Camddeall is a combination of the prefix “cam-“ and the word “deall” to understand. “Cam-“ corresponds to the English prefix “mis- “ - as in mislay or mistrust. Like many compound words, the second element has to take the soft mutation, so that deall becomes ddeall.

The following examples should help you further.

The word trin means to treat, so to say mistreat in Welsh is cam-drin. Trin has taken the soft mutation to become “drin” after the prefix.

Treiglo (to mutate) becomes cam-dreiglo - to mis-mutate

Clywed (to hear) becomes cam-glywed - to mishear

And

Arwain (to lead) becomes cam-arwain - to mislead

Thankfully, no change to the word “arwain” following the prefix “cam-“ as vowels don’t mutate.

The ending “-ach” is normally added to the end of an adjective to form the comparative degree in Welsh, like ‘-er’ at the end of adjectives in English.

For example:

Dewr - brave becomes dewrach
Glan - clean becomes glanach

But, there are some irregular adjectives. For instance, “mawr” doesn’t become “mawrach” as you’d expect, but “mwy”. And “bach” doesn’t become “bachach” but instead “llai”.

We hear Jac saying using one of the irregular forms. He says:

Tyrd â’r gadair yn nes ataf fi
Bring the chair nearer to me

The word for near is “agos”, but the comparative form is “nes” - nearer. However, don’t worry too much if you forget to use this form, as it’s perfectly acceptable to say “agosach” in spoken Welsh - as long as you recognise “nes” - nearer - when you hear it.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 223

Brian learns he will soon be having a new housemate.

Meanwhile at the hospital, Agnes has been avoiding Jac, so he's pleased when they bump into each other in the canteen.

However, it's not all bad luck for Jac - he's heard some good news which is confirmed to him by Jenny.

Geirfa

Rhoi help llaw	to give a helping hand
Disglaid	a cuppa (SW)
Bisgedyn	a biscuit
Camddeall	to misunderstand
Chwerthin ar fy mhen	to laugh at me
Gwyllt	wild
Gwyllt uffernol	terribly wild
Agoriad	key (NW)
Allwedd	key (SW)

Golygfa 1

Jac - Jennifer?

Jenny - O, Jac...Gad i mi roi help llaw i ti hefo'r coffi poeth yna...

Jac - Does dim rhaid i ti.

Jenny - Wyt ti'n siwr?

Jac - Ydw...Really, I'm fine...

Jenny - Gad i mi symud y gadair yma o'r ffordd er mwyn gwneud mwy o le i ti...

Jac - Diolch...

Jenny - Dyna ni...

Jac - Dyna ni...!

Jenny - Rwy'ti'n gwneud yn dda iawn efo'r gadair olwyn.

Jac - Dw i'n trio fy ngorau - getting the hang of it, you know?

Jenny - Wnes i glywed newyddion da iawn brynhawn ddoe. Dywedodd y physio newydd wrthyf fi bod posibilrwydd byddi di'n medru mynd adref rywbryd yr wythnos yma...

Jac - Mmmmmm.

Jenny - Ydy o'n wir?

Jac - Dyna maen nhw wedi dweud wrthyf fi...

Jenny - ... O! Esgusoda fi...Ward y Plant...Mae'n rhaid i mi fynd...Dw i'n falch dy fod ti wedi gwella cymaint...

Jac - Diolch i ti. Hwyl rwan.

Jenny - Hwyl...

Jac - Agnes...? Agnes? Draw fan hyn...

Agnes - Beth wyt ti'n ei wneud i lawr fan hyn yn y cantîn?

Jac - Wel, roeddwn i eisiau paned o goffi.

Agnes - oh...

Jac - Oes gennyt ti amser i gael paned hefo fi?

Agnes - Oes. Af fi i nôl disglaid i fi'n hunan...

Jac - Agnes, dw i'n dy golli di.

Agnes - Fy ngholli fi? Beth wyt ti'n ei feddwl?

Jac - Wel, wnes i ddim dy weld ti trwy'r dydd ddoe.

Agnes - Roeddwn i'n brysur trwy'r dydd ddoe.

Jac - A dw i ddim wedi dy weld ti heddiw 'chwaith...Mae hi bron yn amser cinio.

Agnes - Dw i'n brysur iawn.

Jac - Ie, reit. Os wyt ti'n dweud...

Agnes - Wyt ti eisiau rhywbeth i fwyta?

Jac - Na. Na, dim diolch. Dw i newydd gael bisgedyn efo fy nghoffi...

Golygfa 2

Brian - ...Na...Na...Ddim hynny o'n i'n ei feddwl...Wendy - rwyd ti wedi camddeall. Dwyd ti ddim wedi deall yn iawn. Beth oeddwn i'n ei feddwl oedd...Yli...Wendy...Gwrandda - gwrandda - sori - ond mae rhywun newydd gerdded i mewn a mae'n rhaid i mi fynd...mae'n rhaid i mi fynd rwan, Wendy...Ond dw i'n gaddo galw draw i'r fflat heno...Ydw - dw i'n gaddo - dw i'n gaddo galw draw heno...O.K....Ta ta rwan...Ta ta.

Arwyn - Miss Wendy Keating, I presume?

Brian - Ie...

Arwyn - ...ddim yn swnio'n fenyw hapus, Brian?

Brian - Dydy hi byth yn hapus, Arwyn...Paid â chwerthin ar fy mhen i - plis...

Arwyn - Roedd hi wastad yn ferch - beth yw'r gair dw i'n chwilio amdano fe?

Brian - Mad?... Batty?... Crazy?

Arwyn - Nage. Wel, ychydig efallai. Ond roedd hi wastad yn ferch...wyllt! Dyna'r gair.

Brian - Gwyllt! Rwyd ti'n iawn! Gwyllt uffernol weithiau!

Arwyn - Wyt ti'n ei chofio hi'n cael y sac o'r ysbyty am roi slap i Agnes?

Brian - Cofio'n rhy dda o lawer...

Brian - So, beth fedraf i ei wneud i chdi, Arwyn?

Arwyn - Wel, dw i ddim wedi dod yma i fenthg arian y tro yma...Ond dw i moyn benthg dy allwedd di.

Brian - Beth? Agoriad y car?

Arwyn - Na. Ddim allwedd y car. Yr allwedd i dŷ Jac.

Brian - Tŷ Jac? Pam?

Arwyn - Dw i moyn gwneud copi o'r allwedd.

Brian - Woah, woah, woah, woah! Hold on am funud rwan...Ond... pam wyt ti eisiau gwneud copi o fy allwedd i i dŷ Jac?

Arwyn - Dw i'n symud i fyw yna - dwyd ti ddim wedi clywed?

Brian - Rwyd ti'n dod i fyw ataf fi a Jac?

Arwyn - Ydw.

Brian - Ers pryd? Pryd gafodd hyn ei drefnu felly?

Arwyn - Ers wythnos diwethaf.

Brian - Wel, dydy Jac ddim wedi dweud gair wrthyf fi.

Arwyn - Efallai bydd Jac yn dod mas o'r ysbyty yr wythnos yma...A mae fe wedi rhoi job i fi fel rhyw fath o in-house nurse - home help type, wyt ti'n gwybod...Neu jyst general dogsbody o gwmpas y tŷ...

Brian - Wel os ydy Jac wedi dweud...Dyna fo ynde? Wedi'r cwbl, ei dŷ o ydy o...

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 224

As Jac's getting ready to go home, Jenny confides that she's worried that Arwyn's drinking again and asks Jac to keep an eye out for him.

Brian plays the dutiful father and goes to watch Rhodri playing football. How will he react when Rhodri tells him what Agnes has been saying about him?

Geirfa

Bishi	busy (SW)
Ar fai	at fault; to blame
Y ffasiwn... (+ soft mutation)	such a...
Y ffasiwn beth	such a thing
Siomi	to disappoint
Gormod	too much
hwyr neu'n hwyrach	eventually
pacio	to pack
cysga'n dawell!	sleep tight!

Golygfa 1

Brian - Da iawn chdi, Rhodri....Gefaist ti gêm dda iawn Rhod...
Rhodri - Diolch am ddod i fy ngweld i'n chwarae dad...
Brian - Does dim eisiau i chdi ddiolch i mi, siwr...
Rhodri - Dywedodd mam efallai byddai ti'n rhy fishi i ddod...
Brian - Rhy brysur i dy weld ti'n chware pêl-droed? Wel, roedd hi ar fai yn dweud y ffasiwn beth...
Rhodri - Ond dyna beth ddywedodd hi...
Brian - Dos i gael cawod a newid rwan? A welaf i di wedyn, OK?
Rhodri - OK...
Agnes - Brian...
Brian - Rwy'ti newydd golli'r gêm Agnes...
Agnes - Dw i wedi dod i nôl Rhodri.
Brian - Wel, mae o newydd fynd i newid.
Agnes - O...Beth sydd?
Brian - Beth sydd beth?
Agnes - Pam wyt ti'n edrych arnaf fi fel yna?
Brian - Chdi.
Agnes - Beth am 'bytu fi?
Brian - Beth wyt ti wedi ei ddweud wrth Rhodri? Mmmm?
Agnes - Am beth wyt ti'n sôn?
Brian - Dweud fy mod i'n brysur...A dweud buaswn i'n rhy brysur i ddod i'w weld o'n chwarae heddiw...
Agnes - Doeddwn i ddim eisiau iddo fe gael ei siomi.
Brian - Fuaswn i byth yn ei siomi fo. Glywaist ti fi?
Agnes - Do...
Brian - Fuaswn i byth yn ei siomi fo.
Agnes - Ond wnest ti ei siomi fe pan est ti i Lanzarote heb ddweud wrtho fe...heb ddweud wrthyf fi, heb ddweud wrth neb...
Agnes - Wnest ti ei siomi fe bryd hynny...
Brian - Un waith oedd hynny. One off.
Agnes - Un waith yn ormod ...
Brian - One off. Wneith o ddim digwydd eto. Dw i'n gaddo.
Agnes - Cawn ni weld.
Brian - Dw i'n gaddo.
Agnes - Ie, ie. Os wyt ti'n dweud.
Brian - Ydw, mi ydw i'n dweud. Pam ydw i'n codi fy llais? Bob tro dw i'n siarad hefo chdi dw i'ndw i'n teimlo mor "tense."
Agnes - Brian -
Brian - Yli, beth ydyn ni'n mynd i'w wneud dros 'Dolig?

Agnes - Plis! Nid dyma'r lle na'r amser i ddechrau trafod y Nadolig...

Brian - Ond yn hwyr neu'n hwyrach, mae'n rhaid i ni ddechrau trafod 'Dolig. Ac wyt ti'n gwybod beth fuasai'r anrheg 'Dolig gorau buaswn i'n medru ei gael gennyt ti, yn dwyt...?

Golygfa 2

Jenny - Jac - beth wyt ti'n ei wneud?

Jac - Dw i yn pacio.

Jenny - Pacio? Rwan?

Jac - Pam lai?

Jenny - Ond mae hi'n hwyr. Mae hi bron yn hanner awr wedi deg.

Jac - Ond dw i'n mynd adref yfory.

Jenny - Hei, newyddion grêt. Oes rhywun yn mynd i roi lifft i ti?

Jac - Oes. Brian.

Jenny - Jac...ydy beth dw i wedi'i glywed yn wir...?

Jac - Beth rwan? Beth wyt ti wedi ei glywed.

Jenny - Dw i wedi clywed bod Arwyn yn symud i fewn i dy dŷ di...fel lojar.

Jac - Ydy. Ydy, mae o. Mae hi'n stori wir.

Jenny - Ond bydd gennyt ti lond tŷ o bobol...

Jac - Bydd...

Jenny - Brian, Arwyn a ti...Fel tri mochyn bach.

Jac - Ie. Llond tŷ yn fy nhŷ bach twt...Boys night out bob noson o'r wythnos...

Jenny - Mae Arwyn yn yfed gormod.

Jac - Dw i'n gwybod. Ond fo ydy'r doctor, Jenny. Dw i ddim yn mynd i roi cyngor i ddoctor...As far as I'm concerned, he can do what he likes... I've got to look after number one now.

Jenny - Ond os ydy o'n mynd i edrych ar dy ôl di - wel, mae hwn yn gyfle i ti edrych ar ei ôl o hefyd... Cysga'n dawel, Jac.

Jac - Ie, a tithau hefyd.

Jenny - Nos da...

Jac - Nos da...

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 225

It's a shock to the system as Jac finally arrives home from hospital to face the big, bad world from his wheelchair. What a relief then that Brian and Arwyn are at hand to help...

Geirfa

"Champion"	great; fantastic (NW)
blêr	messy; unkempt
nes	closer
Yffach!	Crikey!
Beth ddiawl...	what the hell...
Ffysian	to fuss
Gwaedu	to bleed
Hances boced	handkerchief
Igam-ogam	higgledy-piggledy; zig-zag; not straight

Golygfa 1

Brian - Iawn, Jac?
Jac - Fel byddet ti'n ei ddweud, Brian - "Dw i'n champion!" diolch.
Brian - O.K. Wel, emmm...Paid â symud. Gad i mi dynnu'r gadair olwyn allan o gefn y car...
Jac - Mae'n dda i fod gartref...Hey - mae'r tŷ angen cot o baent...
Brian - Beth wnest ti ei ddweud...?
Jac - Mae'r tŷ angen cot o baent....Mae'n edrych yn flêr.
Brian - Wyt ti'n meddwl?
Jac - Dwyt ti ddim yn cytuno? Mae o'n edrych yn flêr iawn, dw i'n meddwl...
Brian - Reit...Mae'r gadair allan o'r car rwan. Sut ydyn ni'n mynd i wneud hyn rwan...?
Jac - Right - tyrd â'r gadair yn nes ataf fi...
Brian - Fel hyn...?
Jac - Na, yn nes. Naci, naci, - ddim fel yna...Fel arall...
Brian - Fel yma?
Jac - Ie, dyna chdi...Fel yna...
Brian - Iawn? O.K.? Wyt ti'n O.K.?
Jac - Ydw, ydw -
Brian - Wyt ti eisiau help? Wyt ti eisiau i mi ddal dy fraich di?
Jac - Nag ydw. Jyst dalia'r gadair -
Brian - Jac!
Jac - Paid, paid!
Brian - Damia! Sori -
Jac - Paid, paid. Ddim dy fai di oedd o - dwyt ti ddim ar fai.
Brian - Wyt ti'n iawn?
Jac - Ydw, ydw - dw i'n iawn -
Arwyn - Roeddwn i'n meddwl fy mod i wedi clywed sŵn car tu fas - Yffach! Beth ddiawl ddigwyddodd...? Jac - wyt ti'n iawn...?
Jac - Peidiwch â ffysian gymaint. Plis peidiwch â ffysian.
Brian - Steady on rwan -
Arwyn - Dere i fi ddal y gadair yma yn iawn...
Jac - Peidiwch â ffysian -
Brian - Mae dy drwyn di'n gwaedu, Jac -
Arwyn - Ydy... rwyd ti'n iawn.
Jac - Does dim ots gennyf i - dw i ddim yn mynd yn ôl i'r ysbyty yna...Mae gennyf i hances boced yn rhywle...
Arwyn - Dere i mewn i'r tŷ...
Brian - Gad i mi dy wthio di, Jac -
Jac - Na Brian! Paid! Dw i eisiau ei wneud o fy hun!
Brian - Ond mae'r llwybr yn igam-ogam, ychan...
Jac - Igam-ogam neu beidio - dw i ddim eisiau i ti fy ngwthio fi i mewn i'r tŷ -
Brian - Hey look out! Mae yna dair stepan yn fan yma...

Jac - Dw i'n gwybod hynny - fy nhŷ fi ydy o!
Arwyn - Mae Brian jyst yn trio helpu, Jac...
Jac - Look, dw i wedi colli fy nghoes a mae fy nhrwyn yn gwaedu - ond dw i ddim yn ddall!
Damn it!
Brian - Bydd rhaid i ti gael ramp, yn bydd...
Jac - Dw i ddim eisiau ramp. Sori, bois - ond fuasech chi...? Fuasech chi'n fy nghodi fi i fyny plis?
Brian - Arwyn? Coda'r ochor yna?
Arwyn - Ie...lawn...
Brian - Wyt ti'n barod?
Arwyn - Dw i'n barod ...
Jac - Diolch, diolch.
Brian - Croeso.
Arwyn - Ie...
Jac - Sori am ofyn i chi wneud hynny.
Brian - Hei, dim problem.
Arwyn - Na. Dim problem o gwbl..
Jac - Obviously, bydd rhaid i mi gael ramp, yn bydd. Dw i'n gweld hynny rwan. Bydd rhaid i mi ffonio builder prynhawn yma...

Synopsis

Jac had some good news for the first time in ages and learnt that he was going to be released from hospital this week.

Test yourself

1. 'Defnyddio' means to use, so 'camddefnyddio' means:

- a) to get used to
- b) to misuse**
- c) to use up

2. 'Llai' is the comparative form of:

- a) mawr
- b) agos
- c) bach**

3. Which phrase means 'jagged' in Welsh?

- a) igam-ogam**
- b) bw na be
- c) siw na miw

4. Which of the following does not mean "a cuppa"?

- a) disglaid
- b) powlen**
- c) paned

5. "Mae rhywun newydd gerdded i mewn" means:

- a) Someone is walking in
- b) Someone wants to walk in
- c) Someone has just walked in**

6. Which of the following is not used to mean 'money'?

- a) aur**
- b) arian
- c) pres